

CYNGOR CYMUNED PENTYRCH

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

a baratowyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

**Derbyniodd y Cynllun gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 14(1) y
Ddeddf ar 11 Chwefror 1999**

CYNNWYS

		Tudalen
1	DATGANIAD	3
2	CYFLWYNIAD I GYNGOR CYMUNED PENTYRCH	3
3	NOD AC AMCANION Y CYNLLUN	3
4	CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETHAU	3
5	YMDRIN Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG	4
6	WYNEB CYHOEDDUS Y CYNGOR	5
7	GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN	6
8	CYHOEDDUSRWYDD	8
9	AMSERLEN	8

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

1 DATGANIAD

Paratowyd y Cynllun Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Mae Cyngor Cymuned Pentyrch wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd y Cyngor yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

2 CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Cymuned Pentyrch (a elwir y Cyngor yn y Cynllun hwn) yn gwasanaethu pentrefi Pentyrch, Creigiau yn cynnwys Capel **Llanilltern**, a Gwaelod y Garth. Mae 13 Cynghorydd ar y Cyngor yn cynrychioli y pentrefi yn ôl rhifau 6:5:2. Mae'r Cyngor yn cwrdd unwaith bob mis. Hysbysebiri y cyfarfodydd o flaen llaw a gwahoddir y **cyhoedd** i fynychu. Mae ardal y Cyngor yn cynnwys dwy ward y Cyngor Sir - sef Pentyrch a Chreigiau. Yn ôl y Cyfrifiad diwethaf yn 1991 roedd 14.2% o drigolion Creigiau a 15.9% o drigolion Pentyrch yn siaradwyr Cymraeg.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddwy fynwent, tri coedlan Cymunedol, dau barc chwarae, maes hamdden Creigiau, Comin y Garth a nifer o **lecynnau** o laswellt yn ein pentrefi. Yn ogystal mae'r Cyngor yn darparu ac yn cynnal a chadw yr holl gysgodfeydd **arhosfan** bysiau, seddi cyhoeddus a hysbysfyrddau yn yr ardal.

Mae'r Cyngor yn weithgar ar ran trigolion lleol i ddod â phwysau ar y Cyngor Sir i weithredu ei ddyletswyddau a chyfrifoldebau yn arbennig wrth ymwneud â ffyrdd, palmentydd, llwybrau cyhoeddus, glanhau strydoedd a darparu cyfleusterau addas. Mae'r Cyngor yn ceisio annog a chefnogi gweithgareddau hamdden ac elusennau gwirfoddol ac mae ganddo ddiddordeb mewn unrhyw achos a fyddai'n effeithio ar drigolion lleol - mae pynciau cynllunio o bwys arbennig.

Fe ariennir y Cyngor yn llwyr drwy Dreth y Cyngor ac mae'n cyflogi dwy **weithwraig** swyddfa rhan amser, un gweithiwr llawn amser a thri labwrwr gwaith achlysurol. Mae'n gwasanaethu poblogaeth o dros 6000 o drigolion.

Mae Unedau Cymraeg yn ysgolion cynradd Creigiau a Gwaelod y Garth sy'n gwasanaethu'r Cymuned leol ac ardaloedd cyfagos.

3 NOD A PHWRPAS Y CYNLLUN

Drwy weithredu y cynllun mae'r Cyngor yn **anelu** i:

- drin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.
- i alluogi pawb sy'n derbyn neu ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor i gael y cyfle i wneud hynny drwy gyfrwng y Saesneg neu'r Gymraeg.
- i ddarparu safon effeithiol o wasanaeth yn y ddwy iaith.
- i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg tu fewn i ardal y Cyngor.
- i adolygu'r Cynllun ac i sicrhau y cedwir at y safonau.

4 CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETHAU

4.1 Polisïau a Mentrau Newydd

- 4.1.1 Bydd y Cyngor yn asesu goblygiadau ieithyddol unrhyw **bolisïau** a mentrau newydd wrth eu llunio.
- 4.1.2 Bydd **polisïau** a mentrau newydd yn hyrwyddo ac yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl ac yn symud y Cyngor yn nes at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb ar bob cyfle a ddaw.
- 4.1.3 Bydd unrhyw **bolisïau** a mesurau newydd yn gyson â'r cynllun.

- 4.1.4 Ymgynghorir â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw ynglyn â bwriadau a fydd yn effeithio ar y cynllun. Ni newidir y cynllun heb gytundeb y Bwrdd.
- 4.1.5 Bydd y sawl sy'n ymwneud â llunio polisi yn ymwybodol o'r cynllun ac o gyfrifoldebau'r Cyngor o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.
- 4.1.6 Bydd y mesurau a gynhwysir yn y cynllun yn cael eu gweithredu wrth roi **polisiau** a mentrau newydd ar waith.

4.2 Cyflwyno Gwasanaethau i'r Cyhoedd

- 4.2.1 Bydd y mesurau a gynhwysir yn y cynllun yn berthnasol i'r holl wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor i'r cyhoedd.
- 4.2.2 Bydd aelodau staff y cyngor yn llawn ymwybodol o ofynion y cynllun.
- 4.2.3 Tra na fydd yn ymarferol i ymateb ar unwaith yn Gymraeg, gwneir pob ymdrech i ymateb mewn amser rhesymol.
- 4.2.4 Y nod fydd i ddarparu safon uchel o wasanaeth ym mhob agwedd o waith cyhoeddus y Cyngor ar lafar ac yn ysgrifenedig drwy'r Saesneg a'r Gymraeg. Fe adolygir safon y gwasanaeth yn reolaidd gyda'r nod o wella'r safon yn gyson.
- 4.2.5 Bydd y gwasanaeth a gyflwynir gan y Cyngor yn hyrwyddo a hwyluso defnydd cydradd o'r Gymraeg a'r Saesneg pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl.
- 4.2.6 Anela'r Cyngor at sicrhau bod pob agwedd ar ei wasanaeth i'r cyhoedd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg drwy:
- fabwysiadu gweithdrefnau a fydd yn hwyluso darparu gwasanaethau yn yr iaith a ddewisir gan y sawl sy'n derbyn y gwasanaeth;
 - cynnal gwasanaeth cyfieithu yn y Cyngor a chyflogi cyfieithwyr allanol os oes angen.

5 YMDRIN A'R CYHOEDD

5.1 Gohebu Ysgrifenedig

- 5.1.1 Gwahoddir y cyhoedd i ohebu gyda'r Cyngor yn naill ai'r Saesneg neu'r Gymraeg. Bydd pob llythyr a dderbynnir yn Gymraeg yn derbyn ateb yn Gymraeg wedi ei lofnodi o fewn yr amser penodedig.
- 5.1.2 Bydd yr amser targed i ymateb i lythyr yr un fath yn y Saesneg a'r Gymraeg (o fewn 15 niwrnod gwaith o dderbyn y llythyr gwreiddiol).
- 5.1.3 Pan fydd angen bydd y Cyngor yn cyflogi cyfieithydd proffesiynol.
- 5.1.4 Bydd pob cylchlythyr a llythyr safonol i'r cyhoedd yn ddwyieithog.
- 5.1.5 Bydd y Cyngor yn llythyr yn Gymraeg yn dilyn galwad ffôn yn yr iaith Gymraeg a hefyd gyda'r rhai sydd wedi rhoi gwybod i'r cyngor y dymunant gael gohebiaeth yn Gymraeg.

5.2 Cyfathrebu dros y Ffôn

- 5.2.1 Bydd pob galwad ffôn o'r tu allan yn derbyn cyfarchiad Saesneg a Chymraeg.
- 5.2.2 Fe wneir darpariaeth i alluogi unrhyw aelod o'r cyhoedd â dymunir, i siarad yn Gymraeg. Pan atebir y ffôn gan aelod o'r staff di-Gymraeg, fe eglurir y sefyllfa yn gwrtais ac fe wneir y trefniadau angenrheidiol cyn gynted ag y bo modd. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael fe roddir dewis i'r galwr i gael siaradwr Cymraeg i'w alw yn ôl cyn gynted ag y bo modd, neu parhau drwy ddefnyddio'r Saesneg.
- 5.2.3 Pan fydd ymholiad teleffon yn arwain at lythyr **ysgrifenedig** bydd y galwr yn cael y dewis o dderbyn ei ateb yn Saesneg neu yn Gymraeg.

5.2.4 Bydd unrhyw beiriant ateb ffôn a osodir gan y Cyngor yn trosglwyddo neges dwyieithog.

5.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus

5.3.1 Croesewir cyfraniadau yn y Saesneg neu'r Gymraeg yn ystod Sesiwn y Cyhoedd yng Nghyfarfodydd y Cyngor. Pan roddir datganiad yn Gymraeg gan aelod neu'r cyhoedd bydd rhaid ei ddilyn gan cyfieithiad byr yn Saesneg. Cynhwysir gwybodaeth am hyn yn hysbysiadau cyfarfodydd cyhoeddus.

5.3.2 Bydd yr holl gyhoeddusrwydd ar gyfer cyfarfodydd yn ddwyieithog.

5.3.3 Bydd siaradwyr Cymraeg yn bresennol ymhob cyfarfod o'r Cyngor os nad oes ryw anhawster yn atal hynny. Byddant ar gael ar ddechrau'r cyfarfod i ddelio gyda unrhyw ymholiadau. Ond dim ond datganiadau a wneir yn ystod y cyfarfod fydd yn cael eu cofnodi.

5.3.4 Cyfarfodydd yn adeiladau'r Cyngor: Os yw'n wybyddus mai Cymraeg yw dewis iaith y person bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau fod aelod dwyieithog o'r staff neu Cynghorydd dwyieithog yn ei gwrdd.

5.3.5 Os yw aelod o'r cyhoedd yn ymwneud â cyfarfod safle ac ei fod wedi dangos dymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg yna fe drefnir i gael aelod dwyieithog o'r staff neu Gynghorydd dwyieithog i fod yn bresennol.

5.3.6 Nid yw'r Cyngor yn berchen ar offer cyfieithu neu yn cyflogi cyfieithydd ar hyn o bryd. Bydd y cyngor yn gwneud ymholiadau i'r dewisiadau ac i'r costau ac os ar ôl cyfnod o amser bydd yr Aelodau yn teimlo y gellir cyfiawnhau y gwasanaeth, fe wneir y trefniadau angenrheidiol.

5.3.7 Oherwydd cyfyngiadau ar gyllid nid yw'r Cyngor yn gweld cyfiawnhad dros wario arian ar gyfieithu'r cofnodion misol o gyfarfodydd y Cyngor. Fel y crybwyllir yn 6.3.6 nid yw'r Cyngor yn berchen offer cyfieithu nag yn cyflogi cyfieithydd, adolygir y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf.

6 DELWEDD GYHOEDDUS Y CYNGOR

6.1 Hunaniaeth Gorfforaethol

6.1.1 Enw'r Cyngor yw Cyngor Cymuned **Pentyrch / Pentyrch Community Council**.

6.1.2 Bydd y Cyngor yn mabwysiadu delwedd gorfforaethol gwbl ddwyieithog.

6.1.3 Bydd enw a chyfeiriad ac unrhyw wybodaeth safonol arall a osodir ar ddogfennau, defnyddiau a cherbydau y Cyngor yn ddwyieithog.

6.1.4 Bydd pob dogfen i'w gyhoeddi yn cael ei gyfieithu gan gyfieithydd y Cyngor neu gyfieithydd allanol os bydd angen.

6.2 Arwyddion

6.2.1 Mae logo y Cyngor yn ddwyieithog ac mae i'w weld ar arwyddion a seddau a ddarperir gan y Cyngor. Mae'n fwriad gan y Cyngor i barhau a'r arfer yma wrth newid neu adnewyddu cyfarpar.

6.2.2 Bydd maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd testun ar arwyddion yn parhau'r egwyddor o gydraddoldeb.

6.2.3 Pe bai arwyddion **arwahan** yn cael eu defnyddio ar gyfer y ddwy iaith, byddant yn ymddangos gyda'i gilydd ac yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

6.2.4 Pan yr ymgynghorir a'r Cyngor **ynghlyn** ag arwyddion priffordd a gwybodaeth gyhoeddus bydd y Cyngor yn cefnogi'r egwyddor y dylent fod yn gwbl dwyieithog.

6.2.5 Pan yr ymgynghorir â'r Cyngor **ynghlyn** ag enwau ar gyfer datblygiadau newydd, bydd yn cefnogi'r egwyddor y mabwysiedir enwau Cymraeg. Lle mai dim ond sillafu sy'n gwahaniaethu rhwng fersiwn Cymraeg a Saesneg enw, bydd y Cyngor yn cefnogi mabwysiadu'r ffurf Gymraeg.

6.2.6 Bydd hysbysebion ac hysbysiadau yn y wasg, ar hysbysfyrddau neu mewn unrhyw gyfrwng arall yn ymddangos yn ddwyieithog.

6.2.7 Bydd hysbysebion am bob swydd yn ymddangos yn ddwyieithog.

6.3 Cyhoeddi a Deunydd Argraffu

6.3.1 Bydd holl sylwadau y Cyngor yn y cylchlythyr yn Saesneg ac yn Gymraeg. Gwahoddir erthyglau mewn Cymraeg a Saesneg i'w cynnwys yn y cylchlythyr.

6.3.2 Bydd unrhyw daflenni gwybodaeth a gynhyrchir gan y Cyngor ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg.

6.3.3 Mae papur llythyru swyddogol y Cyngor yn ddwyieithog yn barod ac fe fydd yn y dyfodol yn cynnwys datganiad yn y ddwy iaith yn gwneud hi'n glir y croesewir gohebiaeth yn y naill iaith neu'r llall.

6.3.4 Os cyhoeddir fersiynau Cymraeg a Saesneg **arwahan** o unrhyw ddogfen fe sicreir fod y ddwy ddogfen mor hawdd i'w cael.

6.3.5 Bydd pob deunydd a anelir at y cyhoedd yn ddwyieithog fel rheol gyda'r ddwy iaith yn ymddangos yn yr un ddogfen.

6.3.6 Bydd pob dogfen ar gyfer ei gyhoeddi yn cael ei chyfieithu a'i chywiro gan y cyfieithydd neu gan gyfieithydd allanol os oes angen.

6.4 Ffurflenni a deunydd esboniadol

6.4.1 Bydd pob ffurflen a deunydd esboniadol a gyhoeddir gan y Cyngor at ddefnydd y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog gyda'r ddwy fersiwn yn ffurfio un ddogfen.

6.4.2 Rhoddir cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar y gweithdrefnau **cywir** i staff sy'n cynllunio a chynhyrchu ffurflenni.

6.5 Datganiadau i'r Wasg

6.5.1 Bydd pob datganiad i'r wasg ac i'r cyfyngau yn ddwyieithog.

6.5.2 Bydd pob datganiad yn cynnwys enw cyswllt ar gyfer cyfweiliadau trwy gyfrwng y Gymraeg.

6.6 Gweithgareddau Hysbysebu a Chyhoedduswydd

6.6.1 Cynhelir gweithgareddau hysbysebu a chyhoedduswydd yn ddwyieithog mewn modd sy'n trin y ddwy iaith ar sail cydraddoldeb.

6.6.2 Bydd pob deunydd cyhoedduswydd yn ddwyieithog.

6.6.3 Bydd unrhyw ymgyrch farchnata neu hysbysebu a drefnir gan neu ar ran y Cyngor drwy'r Wasg, teledu, radio ac yn y blaen yn gwbl ddwyieithog.

6.6.4 Bydd llenyddiaeth hyrwyddo a anelir at y farchnad twristiaeth yn ddwyieithog.

6.6.5 Bydd posteri a byrddau gwybodaeth yn ddwyieithog.

6.6.6 Bydd unrhyw arolygon cyhoeddus a drefnir gan y Cyngor yn ddwyieithog yn ogystal ag unrhyw gyfryngau ymateb i ymgyrchoedd hyrwyddo gwybodaeth.

6.6.7 Bydd unrhyw arddangosfa gyhoeddus a drefnir gan neu ar ran y Cyngor yn ddwyieithog.

7 GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

7 Gweinyddwyr

7.1 Ar hyn o bryd nid yw yn ymarferol i gyflogi staff ychwanegol i sicrhau y sefyllfa "ddelfrydol". Mae'n fwriad, nes fod y galw am wasanaeth dwyieithog wedi ei fesur, i'r Clerc gael cymorth aelodau dwyieithog y Cyngor.

- 7.1.2 Wrth benodi staff yn y dyfodol fe fydd angen ystyried y galw am staff dwyieithog. Lle ystyrir y bydd y gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddymunol ar gyfer unrhyw swydd, bydd hynny'n cael ei ddatgan wrth recriwtio ar gyfer y swydd honno.
- 7.1.3 Ni fydd y gallu i siarad Cymraeg yn rhoi blaenoriaeth i ymgeisydd os oes ymgeisydd di-Gymraeg mwy addas wedi ymgeisio.
- 7.1.4 Fe roddir pob anogaeth i staff ar bob lefel i gael sgiliau dwyieithog.
- 7.1.5 Anogir staff sy'n dysgu Cymraeg i ddefnyddio'u Cymraeg yn y gweithle.
- 7.1.6 Ar hyn o bryd nid yw unrhyw aelod o'r staff yn siarad Cymraeg. Ond mae nifer o Gynghorwyr yn ddwyieithog ac yn gallu cynorthwyo'r staff i weithredu gwasanaeth dwyieithog.

7.2 Trefniadau Gweinyddol

- 7.2.1 Mae gan y cynllun hwn lawn gefnogaeth y Cyngor.
- 7.2.2 Bydd y cyfrifoldeb am weithredu'r Cynllun hwn o fewn y Cyngor yn disgyn yn bennaf ar Bwyllgor Iaith Gymraeg y Cyngor a'r Clerc. Bydd y Clerc yn:
- sicrhau bod canllawiau a chyfarwyddiadau ar gael i'r holl staff sy'n ymwneud â gweithredu'r cynllun;
 - yn monitro gweithredu'r cynllun;
 - yn darparu adroddiad blynyddol ar weithredu'r cynllun i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.
- 7.2.3 Bydd y Cyngor yn sicrhau fod manylebau ar gyfer unrhyw raglenni cyfrifiadurol newydd yn galluogi y sefydliad i weithredu gofynion y cynllun.

7.3 Y Gwasanaeth Cyfieithu

- 7.3.1 Bydd anghenion cyfieithu ysgrifenedig y Cyngor yn y lle cyntaf yn gyfrifoldeb Aelodau dwyieithog y Cyngor.
- 7.3.2 Os nad yw gwasanaeth Aelod dwyieithog ar gael fe gyflogir cyfieithydd addas allanol gan y Cyngor.

7.4 Swyddogaethau Statudol

- 7.4.1 Pan yr ymgynghorir â'r Cyngor ar geisiadau cynllunio, bydd y Cyngor yn annog ymgeiswyr i godi arwyddion dwyieithog ar safleoedd yn y pentrefi megis swyddfeydd a siopau drwy gyfeirio at gymeriad dwyieithog yr ardal.
- 7.4.2 Dylid cynnwys y canlynol gyda phob llythyr taliad grant. "Mae Cyngor Cymuned Pentrych yn gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg ac yn gofyn i dderbynwyr grant ystyried natur ddwyieithog y gymuned mewn perthynas â'r achlysur/gweithgaredd a gynhelir".

7.5 Arolygu'r Cynllun

- 7.5.1 Bydd gweithredu'r cynllun yn cael ei arolygu.
- 7.5.2 Pwyllgor Iaith Gymraeg y Cyngor a'r Clerc fydd â'r cyfrifoldeb am arolygu'r Cynllun. Yn dilyn **caniatad** y cyngor llawn, cyflwynir adroddiad yn flynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.
- 7.5.3 Cynhwysir yr eitemau canlynol yn y broses reolaidd o arolygu:

Blaengynllunio - sicrhau bod unrhyw **bolisiau**, gyhoeddiadau, raglenni cyfrifiadurol a threfniadau newydd a weithredir gan y Cyngor yn gyson â'r Cynllun.

◆ **Trefnu a Chyflenwi Gwasanaethau** - gweithredu trefniadau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau'r Cyngor yn ddwyieithog, a'u heffeithlonrwydd.

◆ **Ymdrin a'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg**

- adolygu'r amserau ateb i ohebiaeth yn y Gymraeg a safon y gwasanaethau cyfieithu.
- adolygu gweithredu'r mesurau ar gyfathrebu dros y ffôn.
- adolygu'r trefniadau a wneir ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus.

- ◆ **Wyneb Cyhoeddus y Cyngor** - arolygu gweithredu cyflwyno cyhoeddiadau, arwyddion, hysbysiadau a deunyddiau **cyhoeddiedig** eraill yn ddwyieithog.
- ◆ **Staffio** - arolygu'r angen am **swyddi** dwyieithog penodol.
- ◆ **Amserlen** - gweithredu'r mesurau yn erbyn amserlen y cynllun.
- ◆ **Cwynion** - arolygu'r nifer a natur y cwynion a dderbynnir mewn perthynas â gwasanaeth y Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg ac awgrymiadau ar gyfer ei wella.

7.5.4 Bydd pob cyhoeddusrwydd **ynghlyn** a'r cynllun yn datgan at bwy y dylid cyfeirio cwynion **ynghlyn** â'i weithredu. Bydd pob cwyn a dderbynnir yn cael ei chydnabod mewn ysgrifen, ei chofnodi ac yn cael ei thrin fel bo'n addas.

7.5.5 Bydd y Cyngor yn annog ac yn croesawu awgrymiadau oddi wrth y staff a'r cyhoedd **ynghlyn** â gwella unrhyw agwedd o'r cynllun. Cydnabyddir pob awgrym a dderbynnir mewn ysgrifen.

7.6 Targedau

Bydd y Cyngor yn ceisio ymgyswngedig at y targedau gwreiddiol a osodir gan y Cynllun. Bydd y cyngor yn mesur gweithredu'r Cynllun yn erbyn y targedau a osodir. Bydd y Cyngor yn adol ygu targedau yn flynyddol ac yn cadw'r hawl i newid targedau os bydd angen.

7.7 Cyhoeddi Gwybodaeth

7.7.1 Cyhoeddir adroddiadau ar weithredu'r cynllun yn flynyddol. Bydd yr adroddiad yn cymharu'r perfformiad gyda'r safonau a thargedau a osodir yn y cynllun. Bydd y rhain yn ymwneud a materion megis:

- y ganran o, a'r amser a gymerir, i ateb gohebiaeth yn y Gymraeg.
- canran y cyhoeddiadau a gynhyrchir yn ddwyieithog.
- canran yr ymholiadau teleffon yn Gymraeg
- canran y cyfarfodydd safle drwy gyfrwng y Gymraeg

7.7.2 Bydd yr adroddiad ar gael o swyddfa'r Cyngor ac fe'i hysbysebair ar hysbysfyrddau lleol.

8 CYHOEDDI'R CYNLLUN

8.1.1 Darperir gwybodaeth **ynghlyn** â'r Cynllun i'r cyhoedd mewn hysbysiadau dwyieithog ac ar hysbysfyrddau'r Cyngor, swyddfeydd post, siopau a neuaddau.

8.1.2 Bydd y defnydd cyhoeddusrwydd yn cadarnhau fod y Cyngor yn cynnig gwasanaeth cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg.

8.1.3 Hysbysebair y Cynllun yng nghylchlythyr y Cyngor.

8.1.4 Bydd y Cynllun ar gael i weithlu'r Cyngor.

8.1.5 Fe roddir canllawiau i weithlu'r Cyngor.

9 AMSERLEN

9.1.1 Mae nifer o'r **polisiau** yn y Cynllun wedi eu mabwysiadu gan y Cyngor ac eisoes yn eu lle ers nifer o flynyddoedd. Fe weithredir y **polisiau** newydd yn ôl y targedau a nodwyd.

9.1.2 Bydd rhaid i'r Cyngor ystyried y galw am wasanaethau cyfieithu. Bydd rhaid penderfynu os yw'r darpariaethau yn ddigonol, yn arbennig mewn cyfarfodydd, neu os fydd rhaid cymeryd camau pellach i gyflogi cyfieithydd neu gael offer cyfieithu. Mae'n amlwg y bydd ystyriaethau ariannol yn cael effaith ar unrhyw benderfyniad ar y naill brosiect neu'r llall. Mae'n bwysig y gellir cyfiawnhau y gwariant, felly fe gynigir na weithredir hyn hyd nes y cwblheir yr adolygiad a'r adroddiad ar flwyddyn gyntaf y Cynllun.

9.1.3 Gweithredir y newid i arwyddion dwyieithog yn ôl y galw am osod a newid arwyddion.

9.1.4 Bydd y Cyngor yn dechrau gweithredu'r cynllun yn ffurfiol o ddyddiad ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇